


Ystadegau cryno ar gyfer rhanbarthau economaidd Cymru:

30 Mai 2019
SFR 37/2019

Defnyddir data ystadegol yn eang i gefnogi cynllunio rhanbarthol ar draws Cymru. Mae'r gyfres hon o ddatganiadau yn dod â data allweddol am economi, poblogaeth a seilwaith Cymru ynghyd i fodloni anghenion defnyddwyr data ar dair rhanbarth economaidd Cymru (y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin, a'r De-ddwyrain).

Nod y datganiad hwn yw rhoi cyd-destun i'r datganiadau rhanbarthol a thynnu sylw at wahaniaethau sy'n bodoli rhwng y tri rhanbarth ar gyfer y pynciau dan sylw.

Er bod y datganiad hwn wedi'i
rannu'n benodau, mae'n
bwysig cofio bod yr amrywiol
bynciau yn effeithio ar ei
gilydd ac wrth ddefnyddio'r
wybodaeth ar gyfer cynllunio
dylid rhoi'r data mewn cyd-
destun.



Gall gwahaniaethau rhwng rhannau o Gymru yn aml fod yn sgil nodweddion demograffig neu economaidd-gymdeithasol y rhanbarth. Er enghraifft, mae lefelau gweithgarwch economaidd yn cael eu dylanwadu llawer yn fwy gan gymwysterau na'r ardal lle mae person yn byw. Bydd poblogaeth hŷn, llai gweithgar yn economaidd mewn ardal yn dylanwadu ar lefelau allbwn economaidd y pen.

Mae tueddiadau demograffig yn amrywio ar draws Cymru o ran dosbarthiad oedran a newid naturiol, gan arwain at wahaniaethau mewn tueddiadau poblogaeth a thai yn y dyfodol ar draws ac o fewn y rhanbarthau.

Mae cyd-destun daearyddol hefyd yn bwysig, er enghraifft wrth ystyried data ar seilwaith, boed yn gorfforol neu ddigidol. Mae'r cydgyssylltiad â gweddill y DU yn golygu bod cysylltiad agos rhwng ein perfformiad economaidd a thueddiadau'r DU a byd-eang, ac mewn nifer o ardaloedd ffiniol bydd lefelau cymudo yn effeithio ar rai mesurau allbwn economaidd.

Am y datganiad hwn


Mae'r datganiad hwn yn un o bedwar allbwn ystadegol sy'n rhoi ystadegau ar gyfer Cymru a phob un o'r tri rhanbarth, fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd, ar gyfer naw thema allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Yn y datganiad hwn

Poblogaeth	2
Iechyd	13
Cyflogaeth	15
Trafnidiaeth	21
Yr Amgylchedd	25
Ffyniant	30
Seilwaith Digidol	34
Tai	39
Diwylliant a	
Threftadaeth	43
Gwybodaeth am	
Ansawdd	45

Poblogaeth

Ffigur 1: Y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol, 2017




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2017, roedd Cymru yn gartref i [fwy na 3,125,000 o bobl](#)¹. Roedd bron hanner y trigolion hyn wedi'u crynhoi yn Ne-ddwyrain Cymru, sydd ond yn 14 y cant o arwynebedd tir Cymru.

Yr awdurdod mwyaf poblog yng Nghymru, o bell ffordd, yw Caerdydd, gyda thua 363,000 o drigolion yn 2017, sy'n cyfateb i bron 24 y cant o boblogaeth ei rhanbarth, sef De-ddwyrain Cymru. Roedd y rhanbarth hwn hefyd yn cynnwys yr awdurdod â'r boblogaeth leiaf yng Nghymru, sef Merthyr Tudful, gyda thua 60,000 o bobl.

¹ [StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilomedr sgwâr), yn ôl awdurdod lleol, 2017




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol;
Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2017, roedd gan Gymru [ddwysedd poblogaeth²](#) o 150.7 o bobl fesul cilomedr sgwâr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.0 y cant ers 2007. De-ddwyrain Cymru oedd â'r dwysedd poblogaeth uchaf o blith y tri rhanbarth, o bell ffordd, gyda 542.6 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i Gaerdydd, sef yr awdurdod mwyaf poblog yng Nghymru gyda 2,574.6 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Yn y rhanbarth hwn hefyd y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth dros y degawd diwethaf, sef 5.4 y cant o gymharu â 2007.

Canolbarth a De-orllewin Cymru oedd y lleiaf poblog o blith y tri rhanbarth, gyda dim ond 76.8 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Roedd 4 o'r 5 awdurdod teneuaf eu poblogaeth yng Nghymru yn y rhanbarth hwn. Y rhanbarth hwn hefyd oedd yn cynnwys yr awdurdod lleol lleiaf poblog yng Nghymru, sef Powys, gyda 25.6 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Yng Ngogledd Cymru y cofnodwyd y gyfradd newid isaf yn nwysedd y boblogaeth rhwng 2007 a 2017, sef 2.5 y cant.

² [StatsCymru: Dwysedd y boblogaeth \(unigolion fesul cilomedr sgwâr\) yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

Ffigur 3: Aneddiadau yng Nghymru fesul dosbarthiad gwledig-trefol, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Ystadegau Gwladol

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod y niferoedd o bobl sy'n byw ym mhob categori o aneddiad yn Nghymru (yn ôl poblogaeth) yn weddol gyfartal, ond bod dosbarthiad y categorïau o aneddiad ar draws Cymru ddim yn gyfartal.

Yn ogystal â phoblogaeth yr aneddiad, mae dosbarthiad gwledig-trefol Ystadegau Gwladol yn ystyried a yw'r aneddiad wedi'i leoli mewn ardal "llai tenau" neu "mwyaf tenau". Dengys dosbarthiad yr aneddiadau yng Nghymru yn y ddau gategori ar y map.


Ar lefel rhanbarthol, y De-ddwyrain oedd â'r nifer a'r gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n byw mewn aneddiadau llai tenau o 25,000 neu fwy o drigolion. Y Canolbarth a'r De-orllewin oedd â'r nifer a'r gyfran uchaf o drigolion yn byw mewn aneddiadau "mwyaf tenau".

Mae gwybodaeth cefndirol ar y gwaith hwn ar gael yn yr erthyglau [Ffit gorau a ardaloedd cynnyrch ehangach haen is i ardaloedd adeiledig](#)³ a [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt](#)⁴.

³ [Llywodraeth Cymru: Ffit gorau a ardaloedd cynnyrch ehangach haen is i ardaloedd adeiledig](#)

⁴ [Llywodraeth Cymru: Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt](#)

Ffigur 4: Dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru, yn ôl oedran a rhyw, 2017




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

[Mae gan Gymru yn gyffredinol boblogaeth sy'n heneiddio⁵](#). Rhwng 1997 a 2017, mae cyfran y [boblogaeth 65 oed a throsodd⁶](#) wedi cynyddu o 17 y cant i 21 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 21 y cant i 18 y cant. O blith y tri rhanbarth, poblogaeth De-ddwyrain Cymru sydd wedi'i dosbarthu'n fwyaf cyfartal rhwng ei grwpiau oedran. Ledled Cymru, ar gyfer pob blwyddyn oedran rhwng 18 a 30, mae mwy o ddynion na merched. Fodd bynnag, mae mwy o ferched na dynion ar gyfer pob oedran ar ôl 40 oed.

⁵ [StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl rhyw a blwyddyn](#)

⁶ [StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol ac oedran](#)

Ffigur 5: Newid canrannol yn y boblogaeth yn ôl gwlad yn y DU, 1997-2017




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynyddodd [poblogaeth Cymru](#)⁷ 8.0 y cant rhwng 1997 a 2017. Roedd hyn yn is nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ond yn uwch nag yn yr Alban. Fodd bynnag, wrth ystyried y cyfnod 2007 i 2017, y newid canrannol yng Nghymru oedd yr un isaf yn y DU, sef 4.0 y cant.

Yng Nghymru, yn rhanbarth De-orllewin Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth rhwng 1997 a 2017, sef 9.1 y cant. Yng Ngogledd Cymru y cofnodwyd y cynnydd lleiaf, sef 6.3 y cant. Rhwng y cyfnod 2007 i 2017, cynyddodd poblogaeth Caerdydd yn fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru (10.5 y cant). Fodd bynnag, gostyngodd poblogaeth Ceredigion 3.0 y cant dros yr un cyfnod. Hwn oedd y gostyngiad mwyaf yn y boblogaeth a welwyd yng Nghymru.

⁷ [StatsCymru: Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

Ffigur 6: Elfennau o newid yn y boblogaeth yng Nghymru dros amser




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys [data sy'n dangos elfennau o newid yn y boblogaeth](#)⁸ ledled Cymru fod mwy o'r newid yn y boblogaeth i'w briodoli i ymfudo net a newidiadau eraill nag i newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau). Ers 1991, mae ymfudo net a newidiadau eraill wedi bod yn gwbl gadarnhaol, tra bod newid naturiol wedi amrywio rhwng effeithiau cadarnhaol a negyddol. Gan edrych ar awdurdodau lleol, gwelwn mai ym Mro Morgannwg y gwelwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd ymfudo a newidiadau eraill rhwng 2016 a 2017, tra mai yng Nghasnewydd y gwelwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth yn gyffredinol dros yr un cyfnod. Roedd newid yn y boblogaeth o ganlyniad i ymfudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod hwn, ac eithrio Ceredigion. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r lefel uchaf o newid naturiol yn 2016-17 o bell ffordd, tra gwelwyd newid naturiol negyddol mewn 14 o'r 22 o awdurdodau lleol, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau. Yng Nghonwy y cafwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

⁸ [StatsCymru: Cydrannau newid yn y boblogaeth, yn ôl awdurdod lleol a chydran](#)

Ffigur 7: Twf rhagamcanol yn y boblogaeth, yn ôl rhanbarth, 2018-2038



Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Ledled [Cymru](#)⁹, rhagamcenir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.7 y cant rhwng 2018 a 2028, a 3.6 y cant rhwng 2018 a 2038. Mae amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol yn awgrymu mai De-ddwyrain Cymru a ddylai weld y cynnydd canrannol mwyaf yn y boblogaeth erbyn 2028, a rhagamcenir mai poblogaeth Canolbarth a De-orllewin Cymru a fydd yn tyfu leiaf.

Mae'r ffigyrau hyn yn seiliedig ar brif amcanestyniadau poblogaeth. Er hyn, cynhyrchir nifer o amcanestyniadau amrywiadol sy'n darparu sefyllfaoedd eraill yn y dyfodol yn seiliedig ar dybiaethau gwahanol o gyfraddau ffrwythlondeb, marwolaethau a mudo yn y dyfodol. Nid yw'r rhain yn cynrychioli'r lefel uchaf nac isaf, ond maent yn dangos sut fyddai sefyllfa'r boblogaeth, er enghraifft, pe bai ffrwythlondeb yn gostwng yn is na'r hyn a dybir ar gyfer y prif amcanestyniad.

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru, yn seiliedig ar ffigurau 2014, yn ymyl [y datganiad Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru](#)¹⁰.

Ceir rhagor o wybodaeth am amrywiolion amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol ar [wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)¹¹.

Noder bod yr [amcanestyniadau cenedlaethol seiliedig ar 2016](#)¹² a'r [amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol](#)¹³ yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol ac na ddylid ystyried eu bod yn rhagolwg.

⁹ [StatsCymru: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran \(sail 2016\)](#)


¹⁰ [Llywodraeth Cymru: Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol Cymru \(sail 2014\)](#)

¹¹ [SYG: Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol: bwletin ystadegol sail-2016 \(Saesneg yn unig\)](#)

¹² [StatsCymru: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran \(sail 2016\)](#)

¹³ [StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

Ffigur 8: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol, yn ôl rhanbarth a grŵp oedran eang, 2018-2038¹⁴



Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru; Amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2016, [Nomis, y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)¹⁵


Rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd yng Nghymru yn tyfu ar gyfradd uwch na chyfanswm y boblogaeth dros y 10 mlynedd nesaf, a rhagamcenir y bydd 763,900 o bobl 65 oed a throsodd erbyn 2028. Mae hyn yn cyfateb i gynydd o 17.0 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2038, rhagamcenir y bydd y ffigur hwn yn cynyddu i 866,600, sef cynnydd o 32.8 y cant o gymharu â'r ffigur rhagamcanol ar gyfer 2018. Mae'r data hyn yn seiliedig ar yr [amcanestyniadau cenedlaethol seiliedig ar 2016](#)¹⁶, ar gyfer awdurdodau lleol ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagolwg.

¹⁴ Mae amcanestyniadau ar gyfer rhanbarthau Cymru yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014; mae amcanestyniadau ar gyfer pob rhanbarth arall yn seiliedig ar amcanestyniadau 2016

¹⁵ [Nomis, SYG \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁶ [StatsCymru: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl blwyddyn ac oedran \(sail 2016\)](#)

Ffigur 9: Y newid canrannol yn y boblogaeth ragamcanol o bobl 65 a throsodd, yn ôl awdurdod lleol, 2018-2038 (yn seiliedig ar amcanestyniadau 2014)




Ffynhonnell: Amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Llywodraeth Cymru

Yn ôl [amcanestyniadau seiliedig ar 2014](#)¹⁷ ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, ym mhob awdurdod lleol, rhagamcenir y bydd y boblogaeth o oedolion 65 oed a throsodd yn tyfu ar gyfradd uwch na chyfanswm y boblogaeth erbyn 2038.

Gan edrych ar awdurdodau lleol Cymru, mae'r rhagamcanion twf uchaf yng Nghaerdydd a Sir Fynwy.

¹⁷ [StatsCymru: Amcanestyniadau o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn](#)

Ffigur 10: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd, yn ôl rhanbarth, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl [data'r cyfrifiad](#)¹⁸, roedd 562,016 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru yn 2011. Roedd 27 y cant o siaradwyr Cymraeg yn byw yn Ne-ddwyrain Cymru, 36 y cant yng Ngogledd Cymru a 37 y cant yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Fodd bynnag, roedd dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarthau yn llai cyfartal o'u hystyried fel cyfran o'r boblogaeth (Ffigur 10).

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu pobl i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn ei defnyddio (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon o gartrefi yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn [blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd](#)¹⁹ sy'n trafod data ar y Gymraeg.


Dengys data o'r [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#)²⁰, yn y flwyddyn a ddaeth i ben y mis Mehefin 2018, fod tua 29.3 y cant o bobl tair oed a throsodd ledled Cymru wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o tua 3.5 pwynt canran o gymharu â'r data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2008. Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg oedd Gwynedd, lle y nododd tua 76.4 y cant o drigolion tair oed a throsodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2018.

¹⁸ [StatsCymru: Siaradwyr Cymraeg fesul Awdurdod Lleol, rhyw a grwpiau oedran manwl, cyfrifiad 2011](#)

¹⁹ [Diweddariad gan y Prif Ystadegydd: trafodaeth am ddata ar y Gymraeg sy'n deillio o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#)

²⁰ [StatsCymru: Amcangyfrifon Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o bobl 3 oed a throsodd sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a mesur](#)

Ffigur 11: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl rhanbarth, 2016-2017




Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Yn 2016-17, cafwyd bron 137,500 o gofrestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU) yng Nghymru. Roedd bron hanner yr holl gofrestriadau yn Ne-ddwyrain Cymru. Prifysgol Caerdydd a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU, sy'n cyfateb i bron 25 y cant o gyfanswm y gofrestriadau. Gogledd Cymru oedd y rhanbarth â'r nifer leiaf o gofrestriadau ar gyrsiau AU yn ei sefydliadau (19,850 o gofrestriadau). Noder bod y canrannau wedi'u cyfrifo ar sail [ffigurau wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd](#)²¹.

²¹ [StatsCymru: Cofrestriadau myfyrwyr yng Nghymru yn ôl sefydliad, lefel a dull astudio](#)

Iechyd

Ffigur 12: Disgwyliad oes iach yng Nghymru fel cyfran o ddisgwyliad oes, yn ôl rhyw, 2015-17



Ffynhonnell: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, bwletinau Ystadegol y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynnyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Dengys [data'r SYG²²](#), ledled Cymru, fod disgwyl i ferched a aned yn 2015-17 fyw bron 4 blynedd yn hwy na dynion, ar gyfartaledd. Ar gyfer merched y ffigur yw 82.2 oed, ar gyfer dynion y ffigur yw 78.3 oed.


Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn lleihau wrth ystyried disgwyliad oes iach yng Nghymru, gyda merched a dynion yn treulio 75.4 y cant a 78.4 y cant o'u disgwyliad oes, ar gyfartaledd, mewn iechyd da.

Roedd y ffigurau ar gyfer disgwyliad oes yng Nghymru yn is na chyfartaleddau'r DU dros y cyfnod hwn (sef 82.9 oed ar gyfer merched a 79.2 oed ar gyfer dynion).

Sir Fynwy oedd â'r disgwyliad oes uchaf yng Nghymru ar gyfer dynion (sef 80.3 oed), a Cheredigion a Phowys ar y cyd oedd â'r disgwyliad oes uchaf ar gyfer merched (sef 84.2 oed). Ceredigion hefyd oedd â'r disgwyliad oes iach uchaf ar gyfer dynion (sef 67.4 oed), tra mai Powys oedd â'r disgwyliad oes uchaf ar gyfer merched (sef 68.9 oed). Blaenau Gwent oedd yr awdurdod â'r disgwyliad oes a'r disgwyliad oes iach isaf ar gyfer dynion a merched yng Nghymru. Roedd disgwyliad oes iach islaw 60 oed mewn chwe awdurdod lleol ar gyfer dynion, yr oedd pob un ohonynt yn Ne-ddwyrain Cymru, ac mewn chwe awdurdod lleol ar gyfer merched, yr oedd pedwar ohonynt yn Ne-ddwyrain Cymru a dau ohonynt yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Ystod canran disgwyliad oes mewn iechyd da ar gyfer yr holl awdurdodau oedd 14.1 pwynt canran ar gyfer merched a 13.9 pwynt canran ar gyfer dynion.

²² [SYG: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, y DU: 2015 i 2017 \(Saesneg yn unig\)](#)

Ffigur 13: Oedolion 16 oed a throsodd sy'n dangos 0 neu 1 ymddygiad iach, yn ôl awdurdod lleol, 2016-17 a 2017-18* (wedi'u safoni yn ôl oedran)



*Cyfunwyd y cyfnodau 2016-17 a 2017-18 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ledled Cymru, dangosodd 10 y cant o oedolion 16 oed neu drosodd 0 neu 1 [ymddygiad ffyrdd iach o fyw](#)²³²⁴.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth mawr rhwng y tri rhanbarth o ran cyfran yr oedolion 16 oed neu drosodd a nododd fod ganddynt lefelau isel o ymddygiadau ffyrdd iach o fyw. Wrth ystyried y data hyn ar lefel awdurdod lleol, gwelwn fod 16 y cant o'r oedolion 16 oed neu drosodd ym Merthyr Tudful ac yng Nghaerffili wedi dangos 0 neu 1 ymddygiad iach yn ystod y cyfnod hwn, sef y gyfran uchaf yng Nghymru. Ceredigion, Sir Fynwy a Phowys oedd â'r gyfran isaf, sef 7 y cant.

Ledled Cymru, nododd 71 y cant o'r oedolion 16 oed a throsodd eu bod mewn iechyd cyffredinol da neu dda iawn yn 2016-17 a 2017-18 wedi'u cyfuno.

Yng Ngogledd Cymru roedd y gyfran hon ar ei huchaf (sef 74 y cant). O ddadansoddi'r data yn ôl awdurdod lleol, gwelwn mai Gwynedd oedd â'r lefel uchaf o iechyd cyffredinol da neu dda iawn hunangofnodedig, sef 77 y cant, tra mai Blaenau Gwent oedd â'r gyfran isaf, sef 64 y cant.

²³ [Arolwg Cenedlaethol Cymru: iechyd poblogaethau](#)

²⁴ lle mae ymddygiadau iach yn cynnwys peidio ag ysmegu, yfed 14 o unedau neu lai o alcohol bob wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol, cael mynegai màs y corff iach a bod yn gorfforol egniol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos flaenorol

Cyflogaeth



Y gyfradd
cyflogaeth (y
boblogaeth 16-64
oed)

72.6%

Y gyfradd
diweithdra (y
boblogaeth 16
oed a throsodd)


4.8%

Y gyfradd
anweithgarwch
economaidd (y
boblogaeth 16-64 oed)

20.0%

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018

Ffigur 14: Y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru, 1999-2018



Nodiadau

Mae data ar gyfer 1999-2004 ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 28 Chwefror. Mae data o 2005 ymlaen ar gyfer blwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r [gyfradd cyflogaeth](#)²⁵ yw canran y boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. Yng Nghymru, yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, y gyfradd cyflogaeth oedd 72.6 y cant, gyda lefel cyflogaeth o tua 1.45 miliwn o bobl. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu 3.2 pwynt canran ers 2008 ac mae wedi cynyddu'n gyflymach na chyfradd y DU ers 2001, er ei bod yn dal i fod yn is na chyfradd y DU, sef 74.9 y cant. Ar lefel ranbarthol, roedd Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru islaw cyfraddau'r DU a Chymru, ond gyda chyfradd Gogledd Cymru yn uwch na'r ddwy ohonynt.


²⁵ [StatsCymru: Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru, blwyddyn a rhyw](#)

Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r [gyfradd diweithdra](#)²⁶ yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddiwaith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Yng Nghymru, yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018, y gyfradd diweithdra oedd 4.8 y cant, a oedd yn cyfateb i lefel diweithdra o 72,300 o bobl. Roedd y gyfradd hon 0.7 pwynt canran yn is na'r gyfradd diweithdra 10 mlynedd ynghynt, ond mae'n uwch na chyfradd diweithdra'r DU, sef 4.2 y cant. Yn Ne-ddwyrain Cymru y cofnodwyd y gyfradd diweithdra uchaf ac yng Ngogledd Cymru roedd yr un isaf.

Y [gyfradd anweithgarwch economaidd](#)²⁷ yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ledled Cymru, y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16-64 oed (heb gynnwys myfyrwyr) oedd 20.0 y cant, sy'n cyfateb i lefel anweithgarwch economaidd o 347,100 o bobl. Roedd y gyfradd hon 3.4 pwynt canran yn is o gymharu â 10 mlynedd ynghynt. Mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer Cymru a phob un o dri rhanbarth Cymru yn uwch na'r gyfradd gyfatebol ar gyfer y DU, sef 17.8 y cant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 2018.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym [Mhroffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru](#)²⁸.

Ffigur 15: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl rhanbarth, 2017



Ffynhonnell: Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ledled Cymru, mae bron hanner y [gyflogaeth yn y gweithle \(neu gyfanswm y swyddi\)](#)²⁹ wedi'i lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru, er mai'r rhanbarth hwn hefyd sydd â'r ystod fwyaf o lefelau cyflogaeth yn y gweithle, gan gynnwys yr awdurdodau lleol â'r nifer fwyaf ac isaf o swyddi yng Nghymru.

Ledled Cymru, roedd mwy na 50 y cant o'r swyddi yn perthyn i ddau [sector eang](#)³⁰, sef: Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd; a Chyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd. Gweithgareddau yn gysylltiedig ag eiddo tiriog oedd y sector lleiaf ledled Cymru.


²⁶ [StatsCymru: Cyfraddau diweithdra ILO yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn](#)

²⁷ [StatsCymru: Cyfraddau anweithgarwch economaidd \(ac eithrio myfyrwyr\) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn](#)

²⁸ [Llywodraeth Cymru: Proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd](#)

²⁹ [StatsCymru: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang](#)

Ffigur 16: Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru yn ôl sector (cyfrif), 2007-2017



Allwedd

- 1 Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gweithgareddau gwasanaeth cymorth
- 2 Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd
- 3 Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Y sectorau a dyfodd gyflymaf rhwng 2007 a 2017 oedd gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, dyletswyddau gweinyddol a dyletswyddau cymorth; a Gwybodaeth a Chyfathrebu. Y sectorau hyn oedd yn y ddau safle uchaf ar gyfer twf cyflogaeth fel cyfrif ac fel newid canrannol rhwng 2007 a 2017. Yn y lleiaf o'r sectorau ledled Cymru, sef gweithgareddau eiddo tiriog, y gwelwyd y trydydd cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth rhwng 2007 a 2017, mewn termau canrannol.

Dengys [data'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau](#)³¹, yn 2018, ledled Cymru, fod gan y mwyafrif helaeth o fusnesau lai na 10 cyflogai. Roedd tua 65 y cant o fusnesau mawr yn perthyn i ddau sector, sef: Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwyd a chyfathrebu; a gwasanaethau ariannol a busnes. Y sector â'r gyfran uchaf o fusnesau yn y band microfusnesau oedd Amaethyddiaeth.

³⁰ [StatsCymru: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a diwydiant eang](#)

³¹ [StatsCymru: Mentrau yn ôl diwydiant \(ISC2007\), band maint ac ardal](#)

Ffigur 17: Y newid ym mhoblogaeth awdurdodau lleol o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2017



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ar gyfer Cymru yn gyffredinol, roedd newid net yn y boblogaeth o weithwyr o -52,500 o weithwyr, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o Gymru nag i mewn iddi.


Roedd y [newid net yn y boblogaeth o weithwyr](#)³² yn negyddol mewn 15 o'r 22 o awdurdodau lleol, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Mae hyn yn cynnwys [cymudo ar draws y ffin](#)³³ i ardaloedd yn Lloegr fel Bryste, Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer ymysg eraill. Y tri awdurdod mwyaf poblog yng Nghymru oedd y rhai â'r lefelau net uchaf o newid yn y boblogaeth o weithwyr hefyd.

Roedd pob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru yn cynnwys o leiaf ddau awdurdod lleol lle roedd mwy o weithwyr yn cymudo i mewn i'r awdurdod nag oedd yn cymudo allan ohono, er nad yw'r data hyn yn dangos o ble yn union y mae'r gweithwyr hyn wedi cymudo. Noder bod ffigurau, gan gynnwys data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.

³² [StatsCymru: Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru a mesur](#)

³³ [StatsCymru: Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru](#)

Ffigur 18: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswyllo




Ffynhonnell: Data'r Cyfrifiad Cenedlaethol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys [data'r Cyfrifiad](#)³⁴, ar gyfartaledd, fod trigolion mewn gwaith 16-74 oed ar Ynys Môn yn teithio ymhellach na gweithwyr unrhyw awdurdod lleoll arall yng Nghymru i fynd i'r gwaith.

Gweithwyr Caerdydd, ar gyfartaledd, oedd â'r teithiau cymudo byrraf yng Nghymru o ran pellter.

³⁴ [SYG: Dadansoddiad Cyfrifiad 2011, Pellter a deithiwyd i'r gwaith \(Saesneg yn unig\)](#)

Ffigur 19: Lefel cymhwyster uchaf oedolion 18-64 oed yng Nghymru, 2008-2017*



*Mae'r holl ddata ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 December


Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhwng 2008 a 2017, mae cyfran yr oedolion 18-64 oed ledled Cymru [heb gymwysterau](#)³⁵ wedi gostwng o 15.2 y cant i 8.7 y cant. Gwelwyd gostyngiad ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, ac eithrio Sir y Fflint, lle y cafwyd cynnydd o 2 bwynt canran. Yn y cyfamser, mae cyfran y bobl sydd â chymhwyster hyd at NQF lefel 2 neu'n uwch wedi cynyddu o 68.9 y cant i 78.5 y cant. Yng Nghaerffili y gwelwyd y newid mwyaf, sef cynnydd o 15.6 pwynt canran. Yn 2017, roedd 37.5 y cant o'r bobl yng Nghymru wedi ennill rhyw fath o gymhwyster addysg uwch (NQF lefel 4 neu'n uwch). Roedd gan y mwyafrif o'r unigolion hyn gymwysterau hyd at NQF lefelau 4-6 a hwn oedd y grŵp â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth ynddo yn 2017.

³⁵ [StatsCymru: Lefel uchaf o gymhwyster sydd gan oedolion o oedran gweithio yn ôl awdurdod lleol](#)

Trafnidiaeth

Ffigur 20: Seilwaith Trafnidiaeth yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Ordnans

Mae tair traffordd yng Nghymru; sef yr A48(M), yr M4 a'r M48.


Syrthiodd cyfanswm y traffig cludo nwyddau mewn [porthladdoedd yng Nghymru](#)³⁶ 3.6 y cant yn 2017 i 51.6 miliwn o dunelli (Mt), y lefel isaf ers dechrau cadw cofnodion cyfatebol yn 1976. Mae'r tri phorthladd pwysicaf yng Nghymru yn diwallu anghenion morgludiant arbenigol:

- Mae Aberdaugleddau yn ymdrin ag olew crai, cynnyrch olew a nwy naturiol hylifedig yn bennaf
- Mae Port Talbot yn mewnforio mwyn haearn a glo yn bennaf ar gyfer y gwaith dur cyfagos
- Caergybi yw'r prif borthladd ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr dros y môr i Weriniaeth Iwerddon.

³⁶ [Llywodraeth Cymru: Cludiant Môr](#)

Dengys [data'r Cyfrifiad o 2011](#)³⁷, o drigolion Cymru 16-74 oed a oedd mewn gwaith (1.36 miliwn), fod 74.7 y cant yn teithio i'r gwaith yn y car, mewn fan neu ar feic modur, sgwter neu foped. Dim ond 6.6 y cant (90,000 o bobl) a oedd yn cymudo i'r gwaith ar drên neu mewn bws, bws mini neu goets yn yr un cyfnod. Yn y cyfamser, roedd 12.1 y cant (165,000 o bobl) yn teithio i'r gwaith ar droed neu ar feic. Roedd y patrwm hwn fwy neu lai yr un peth ym mhob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru, ac eithrio'r defnydd cyfrannol ychydig yn uwch o drenau, bysiau, bysiau mini a choetsys yn Ne-ddwyrain Cymru.

Ffigur 21: Pa mor aml mae oedolion 16+ oed yng Nghymru yn cerdded at ddibenion teithio llesol (a), (b)



(a) Ni chynhaliwyd yr Arolwg Cenedlaethol yn 2015-16

(b) Newidiodd holiadur yr arolwg yn 2017-18 a chafodd yr amser cerdded ei gynyddu o 5 munud i 10 munud. Golyga hyn na ellir gwneud unrhyw gymariaethau â blyneddau blaenorol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dengys [data o Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)³⁸, ledled Cymru yn 2017-18, fod 58 y cant o oedolion yn cerdded fwy nag unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol³⁹, a 6 y cant o'r holl oedolion 16 oed a throsodd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol. Dangoswyd bod trigolion ardaloedd trefol yn fwy tebygol o gerdded y rheolaidd na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig, gyda 47 y cant o drigolion ardaloedd trefol yn cerdded o leiaf deirgwaith yr wythnos, o gymharu â 33 y cant o drigolion ardaloedd gwledig. Mae hyn i'w briodoli, o bosibl, i'r ffaith bod gan drigolion ardaloedd trefol fwy o gyrchfannau o fewn pellter cerdded na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.


³⁷ [Nomis, SYG: Trafnidiaeth i'r gwaith \(Tabl QS701EW\) \(Saesneg yn unig\)](#)

³⁸ [Llywodraeth Cymru: Teithio Llesol: cerdded a beicio \(Ebrill 2017 i Mawrth 2018\)](#)

³⁹ "Teithio Llesol" yw cerdded neu feicio fel dull o deithio; hynny yw cerdded neu feicio er mwyn mynd i gyrchfan benodol megis y gwaith neu siopau neu er mwyn ymweld â ffrindiau. Nid yw'n cwmpasu cerdded neu feicio er pleser yn unig, am resymau iechyd neu at ddibenion hyfforddi.

Yn y cyfamser, dengys [data teithio llesol](#)⁴⁰ o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 fod 45 y cant o blant wedi teithio i'r ysgol gynradd naill ai gan gerdded gydag oedolyn, neu ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill, neu ar feic, o gymharu â 34 y cant o'r plant a oedd yn teithio i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, er bod disgyblion ysgol gynradd yn fwy tebygol na disgyblion ysgol uwchradd o gerdded neu feicio i'r ysgol, roeddent hefyd yn fwy tebygol o deithio i'r ysgol yn y car. Roedd hyn i'w briodoli i'r ffaith bod cyfran lawer uwch o blant ysgol uwchradd yn defnyddio bws ysgol o gymharu â phlant ysgol gynradd.

Ffigur 22: Yr 20 o orsafoedd rheilffordd prysuraf yng Nghymru yn ôl nifer y mynediadau/ymadawiadau, 2016-17




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r defnydd o orsafoedd o Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd

Mae'r defnydd o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru wedi'i grynhoi o amgylch llinellau cymudo i Gaerdydd: mae 15 o'r 20 o [orsafoedd rheilffordd prysuraf yng Nghymru](#)⁴¹ yn ôl nifer y mynediadau/ymadawiadau yn 2016-17 yn Ne-ddwyrain Cymru. Roedd mwy na hanner ar linell Rhwydwaith y Cymoedd, a oedd yn cyfrif am 18 y cant o gyfanswm mynediadau/ymadawiadau gorsafoedd yn ystod y cyfnod hwn (nid yw hyn yn cynnwys mynediadau/ymadawiadau ar gyfer Gorsafoedd Caerdydd Canolog a Chaerdydd Heol y Frenhines). Roedd Caerdydd Canolog ar ei phen ei hun yn cyfrif am 24 y cant o holl fynediadau ac ymadawiadau gorsafoedd yng Nghymru yn 2016-17.

⁴⁰ [Llywodraeth Cymru: Teithio Llesol: cerdded a beicio \(Ebrill 2016 i Mawrth 2017\)](#)

⁴¹ [Llywodraeth Cymru: Defnydd gorsafoedd rheilffordd \(Ebrill 2016 i Mawrth 2017\)](#)

Ffigur 23: Newid net yn nifer y teithiau trên yn ôl rhanbarth, rhwng 2006-07 a 2016-17



Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd


Ledled Cymru, gwelodd gorsafoedd rheilffordd 51.7 miliwn o fynediadau/ymadawiadau yn 2016-17, a oedd yn cyfrif am 1.8 y cant o gyfanswm y DU. Cynyddodd y defnydd o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru 1.3 y cant yn 2016-17 o gymharu â'r flwyddyn faenorol, gan barhau â'r duedd gadarnhaol o ran mynediadau/ymadawiadau gorsafoedd rheilffordd a oedd wedi'i nodi ers dechrau'r gyfres ddata yn 2004-05).

Gan edrych dros y tymor hwy, dengys [data o Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd](#)⁴² fod nifer y teithiau trên a wnaed yng Nghymru wedi cynyddu 45.4 y cant rhwng 2006-07 a 2016-17. Teithiau a ddechreuodd a/neu a orffennodd yn Ne-ddwyrain Cymru a oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn.

⁴² [StatsCymru: Teithiau rheilffyrdd gan deithwyr fesul Awdurdod Lleol a blwyddyn](#)

Yr Amgylchedd

Ffigur 24: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru


Sefydlwyd [Arfordiroedd Treftadaeth](#)⁴³ er mwyn diogelu arfordiroedd rhag datblygiadau ansensitif. Maent yn ymestyn dros draean o arfordir Cymru, sef 500km (300 milltir).

Mae 21 o [Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig \(AGAu\)](#)⁴⁴ wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru. Eu diben yw diogelu cynefinoedd rhywogaethau adar sy'n brin neu'n agored i niwed (y mae 48 ohonynt yn y DU), yn ogystal â rhai rhywogaethau mudol sy'n ymweld â glannau Cymru yn rheolaidd.

⁴³ [Lle: Arfordir Treftadaeth](#)

⁴⁴ [Lle: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig](#)

Ffigur 25: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yng Nghymru



Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru


Mae Cymru yn gartref i dri [Pharc Cenedlaethol](#)⁴⁵, sef: Eryri; Bannau Brycheiniog; ac Arfordir Penfro. Mae pum ardal hefyd wedi'u dynodi'n [Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol \(AHNEau\)](#)⁴⁶, sef: Gŵyr; rhan o Ddyffryn Gwy; Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; Ynys Môn; a Phen Llŷn. Mae 1,063 o [Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig \(SoDdGAau\)](#)⁴⁷ yng Nghymru hefyd.

⁴⁵ [Lle: Parciau Cenedlaethol](#)

⁴⁶ [Lle: Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol](#)

⁴⁷ [Lle: Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig](#)

Ffigur 26: Crynodiad nitrogen deuocsid (NO₂) yng Nghymru dros amser



Ffynhonnell: Crynodiad Aer, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; Amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach (SAPE), y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol; Gwybodaeth Ddaearyddol, Llywodraeth Cymru

Mae lefelau llygredd aer yn gostwng yn raddol yng Nghymru, gyda [chrynodiad cyfartalog nitrogen deuocsid a nodwyd](#)⁴⁸ yng Nghymru yn gostwng o 14 µg/m³ yn 2007 i 9 µg/m³ yn 2017. Roedd hyn yn amrywio ledled Cymru. Ar y cyfan, roedd gan awdurdodau lleol mwy poblog grynodiadau uwch o nitrogen deuocsid a nodwyd nag awdurdodau llai poblog. Caerdydd oedd â'r crynodiad uchaf (17 µg/m³), a Cheredigion a Phowys oedd â'r crynodiadau isaf a nodwyd, sef 4 µg/m³. Yng Nghasnewydd y gwelwyd y newid mwyaf o ran crynodiadau nitrogen deuocsid rhwng 2007 a 2017, a ostyngodd 8 µg/m³ dros y cyfnod hwn.


Mae capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi bod yn cynyddu ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chapasiti o 3,683 megawatt (MW) o [ynni carbon isel](#)⁴⁹ yn 2017 drwy fwy na 67,000 o brosiectau. Roedd 41 y cant o'r capasiti hwn yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, 21 y cant yn Ne-ddwyrain Cymru a 18 y cant yng Ngogledd Cymru. Roedd yr 20 y cant arall ar y môr neu mewn lleoliad anhysbys. Roedd 87 y cant o'r prosiectau ynni carbon isel yng Nghymru ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol).⁵⁰

⁴⁸ [StatsCymru: Dangosyddion Ansawdd Aer, fesul Awdurdod Lleol](#)

⁴⁹ [StatsCymru: Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol a Technoleg](#)

⁵⁰ (r) Adolygwyd y paragraff hwn ar 23/08/2019

Ffigur 27: Trin gwastraff trefol yng Nghymru



Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Ers 2012-13, mae cyfraddau aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio cartrefi wedi bod yn cynyddu yng Nghymru, tra bod canran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi bod yn gostwng. Fodd bynnag, nid oedd data 2017-18 yn gyson â'r ddwy duedd hyn.


Yn 2017-18, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei [aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio](#)⁵¹ oedd 63 y cant yng Nghymru. Roedd y lefel hon 10 pwynt canran yn uwch nag yn 2012-13, er i'r lefel ostwng rhwng 2016-17 a 2017-18.

Yn y cyfamser, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei anfon i [safleoedd tirlenwi](#)⁵² oedd 11 y cant yng Nghymru. Roedd hyn yn fwy nag yn 2016-17, ond dengys y duedd ostyngiad o gymharu â'r 41 y cant a gofnodwyd yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer.

⁵¹ [StatsCymru: Cyfraddau aildddefnyddio/ailgylchu/compostio blynyddol gan awdurdod lleol](#)

⁵² [StatsCymru: Rheolaeth o wastraff blynyddol gan ddull rheoli](#)

Ffigur 28: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg), yn ôl awdurdod lleol, 2017-18




Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2017-18, cynhyrchodd person cyffredin yng Nghymru 184kg o [wastraff cartref gweddilliol](#)⁵³ (gwastraff a gynhyrchir nas cynhwysir mewn cylchoedd casglu ar wahân lle y bwriedir i'r gwastraff gael ei ailgylchu neu ei gompostio), o gymharu â 217kg yn 2012-13. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 15.2 y cant.

⁵³ [StatsCymru: Nifer blynyddol o wastraff cartrefi wedi'u cynhyrchu pob person \(cilogramau\) gan awdurdod lleol](#)

Ffyniant

Ffigur 29: GYG y pen yng Nghymru a'r DU (£), rhwng 1998 a 2017⁵⁴



*Cyfanswm y DU heb gynnwys unrhyw elfennau o incwm aelwydydd na ellir eu priodoli i ranbarthau penodol, h.y. elfennau sy'n allranbarthol. Hwn yw cyfanswm rhanbarthau Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r cyfanrif mwyaf priodol.

Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys [Gwerth Ychwanegol Gros \(GYG\) y pen](#)⁵⁵ ar gyfer 2017 a [Incwm Gwario Gros Aelwydydd](#)⁵⁶ ar gyfer 2016 fod y ddau fesur wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd tymor hwy, ac eto maent yn dal i fod yn is na gwerthoedd y DU.

Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn [erthygl blog](#)⁵⁷ y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.

Yn 2017, GYG y pen yng Nghymru oedd £19,899. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 2.7 y cant o gymharu â 2016, a chynnydd o 74.1 y cant o gymharu â 1999. Yn 2017, De-ddwyrain Cymru oedd â'r lefel uchaf o GYG y pen o blith rhanbarthau Cymru. Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru roedd GYG y pen yn is nag mewn rhannau eraill o Gymru a bron £10,000 y pen islaw lefel y DU dros yr un cyfnod.

⁵⁴Y data a gynhwyswyd yw'r dull gweithredu cytbwys ar gyfer GYG

⁵⁵ [StatsCymru: Gwerth Ychwanegol Crynswth yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn](#)

⁵⁶ [StatsCymru: Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario yn ôl mesur, rhanbarth economaidd yng Nghymru a blwyddyn](#)

⁵⁷ [National Statistical, SYG: Mind the gap: why the UK might not be the most regionally unequal country \(Saesneg yn unig\)](#)

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn amcangyfrif o'r swm o arian sydd gan aelwydydd i'w wario neu ei gynilo. Yng Nghymru, cynyddodd Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen £15,835 yn 2016, sy'n cyfateb i gynnydd o 0.7 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd 58.8 y cant yn uwch nag yn 1999. Yng Ngogledd Cymru y cofnodwyd y lefel uchaf o Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen yn ystod 2016 ac yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru y cofnodwyd yr un isaf. Dyma oedd y sefyllfa yn 1999 hefyd.

Yn 2018, [enillion gros canolrifol yr wythnos](#)⁵⁸ cyflogeion llawn amser ledled Cymru oedd £509.00. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o £10.70 o gymharu â 2017, ond roedd yn dal i fod £60 yn is na gwerth cymedrig y DU. O gymharu'r data rhanbarthol, gwelir mai'r cyflog cymedrig yn Ne-ddwyrain Cymru yn 2018 oedd £520,000, a oedd yn uwch nag yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (£501.90) a Gogledd Cymru (£498.80).

Dengys [amcangyfrifon y SYG](#)⁵⁹, yn 2018, fod 26.0 y cant o gyflogeion yng Nghymru yn ennill llai na'r cyflog byw (sef £8.75 yn 2018, fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation). Yr amcangyfrif ar gyfer y DU oedd 22.8 y cant. Yng Nghonwy y cofnodwyd y gyfran uchaf o gyflogeion a oedd yn ennill llai na'r cyflog byw (sef 35.3 y cant) ac yng Nghaerffili y cofnodwyd y gyfran isaf (sef 20.5 y cant). Noder bod yr amcangyfrifon hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, sy'n bennaf yn adlewyrchu maint y samplau.

Dengys [ymchwil y SYG](#)⁶⁰, yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben yn 2016, fod gan 40.8 y cant o aelwydydd yng Nghymru incwm o £15,000 neu'n is ar ôl ystyried TWE a budd-daliadau. Gan ddefnyddio'r un mesurau, roedd gan 13.8 y cant o aelwydydd incwm o fwy na £30,000. Yn Lloegr, y cyfraddau cyfatebol ar gyfer y grwpiau incwm hyn oedd 38.7 y cant a 18.8 yn y drefn honno. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn fel allbynnau ymchwil i fethodoleg sy'n wahanol i'r un sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd i gynhyrchu ystadegau ar incwm. Ni ddylid ystyried bod yr allbynnau hyn yn ddangosydd tlodi na safonau byw.

Yng Nghymru, roedd 17.4 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2017/18, sef cynnydd o 0.4 pwynt canran o gymharu â 2007/08. Roedd hyn yn amrywio o 18.6 y cant yn Ne-ddwyrain Cymru i 15.4 y cant yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, yng Ngogledd Cymru y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y 10 mlynedd flaenorol.

⁵⁸ [StatsCymru: Enillion wythnosol gros cyfartalog \(canolrif\) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn \(£\)](#)

⁵⁹ [SYG: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion \(ASHE\) - Amcangyfrifon nifer a chyfran o swyddi gyda thâl wrth yr awr sy'n is na'r gyflog byw, fesul daearyddiaeth gwaith, awdurdod lleol ac etholaeth seneddol, y DU, Ebrill 2017 ac Ebrill 2018 \(Saesneg yn unig\)](#)

⁶⁰ [SYG: Cynnyrch Ymchwil: Incwm o Dalu Wrth Ennill \(TWE\) a budd-daliadau ar gyfer y flwyddyn dreth yn gorffen 2016 \(Saesneg yn unig\)](#)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru \(MALIC\)](#)⁶¹ yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae 1909 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. O blith y rhain, mae 49 y cant yn y De-ddwyrain, 29 y cant yn y Canolbarth a'r De-orllewin, a 22 y cant yn y Gogledd.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2014 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 66 y cant yn y De-ddwyrain, 21 y cant yn y Canolbarth a'r De-orllewin a 12 y cant yn y Gogledd.

Ym MALIC 2014, roedd pocedi o amddifadedd cymharol uchel yng Nghymoedd y De a dinasoedd mawr, ac mewn rhai trefi arfordirol neu ger y ffin yn y Gogledd.


Sylwch y bydd MALIC yn cael ei ddiweddarau ym mis Tachwedd 2019, gan gynnwys offeryn ar-lein i roi rhagor o fanylion ystadegol fesul rhanbarth economaidd.

⁶¹ [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#)

Busnesau

Yn 2017 roedd gan Gymru gyfradd 'genedigaethau busnesau' uchel a chyfradd 'marwolaethau busnesau' isel o gymharu â gweddill y DU. Sefydlwyd 14,120 o [fusnesau newydd](#)⁶² yng Nghymru yn 2017, sy'n golygu bod ganddi gyfradd 'genedigaethau busnesau' o 13.7 y cant o gyfanswm y stoc busnesau, sef y drydedd gyfradd uchaf ymhlith y 12 o wledydd a rhanbarthau yn y DU. Cyfradd genedigaethau'r DU oedd 13.1 y cant. Aeth 10,725 o fusnesau i'r wal yng Nghymru yn 2017, sy'n cyfateb i gyfradd o 10.4 y cant o'r stoc fusnesau. Hon oedd yr ail gyfradd isaf ymhlith y 12 o wledydd a rhanbarthau yn y DU (Llundain oedd â'r un uchaf, sef 14.2 y cant). Cyfradd marwolaethau'r DU oedd 12.2 y cant.

Ffigur 30: Cyfraddau goroesi busnesau yng Nghymru a sefydlwyd yn 2012 (data 2017)



Ffynhonnell: Demograffeg Busnes, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


O'r busnesau a sefydlwyd yng Nghymru yn 2012, roedd 92.3 y cant [yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf](#)⁶³, roedd 60.4 y cant yn dal i fasnachu ar ôl tair blynedd ac roedd 44.0 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Dengys y data mai Ceredigion oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o fusnesau a oedd yn dal i fodoli ar ôl y pum mlynedd gyntaf (52.8 y cant). Ar y llaw arall, roedd gan Flaenau Gwent un o'r cyfraddau goroesi uchaf yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf (sef 96.0 y cant) ond y gyfradd goroesi isaf ar ôl pum mlynedd yng Nghymru (36.0 y cant).

⁶² [StatsCymru: Busnesau newydd, busnesau sydd wedi cau a mentrau gweithredol yn ôl newidyn, ardal a diwydiant \(SIC 2007\)](#)

⁶³ [StatsCymru: Cyfradd goroesi busnesau yn ôl rhanbarth a blwyddyn y goroesiad](#)

Seilwaith Digidol

Ffigur 31: Canran y cartrefi a'r busnesau a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn neu wibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018



Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ym mis Medi 2018, roedd Cymru yn cyd-fynd, fwy neu lai, â gweddill y DU o ran y gallu i gael [cysylltiad band eang cyflym iawn](#)⁶⁴ (30Mbit/e neu'n uwch), gyda 93 y cant o safleoedd (cartrefi a busnesau) yn gallu cael cysylltiad o'r fath, o gymharu â 94 y cant ledled y DU. Yn achos Cymru, roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 4 pwynt canran o gymharu â data 2017. Fodd bynnag, Cymru oedd â'r ganran isaf o bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau hyn mewn unrhyw un o wledydd y DU, gyda 38 y cant o safleoedd yng Nghymru yn eu defnyddio.

Roedd 29 y cant o'r cartrefi a'r busnesau yng Nghymru yn gallu cael cysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt ym mis Medi 2018. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 19 pwynt canran o gymharu â 2017 ond roedd yn dal i fod yn is na chyfradd y DU, sef 49 y cant.


⁶⁴ [Y Swyddfa Gyfathrebu: Cysylltu'r Gwledydd 2018](#)

Roedd 7 y cant o gartrefi a busnesau yng Nghymru yn gallu manteisio ar [wasanaethau ffeibr llawn](#)⁶⁵ ym mis Medi 2018. Roedd hyn 1 pwynt canran yn uwch na lefel y DU. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.

Yn awdurdodau lleol Cymru, roedd cyflymderau lawrlwytho cyfartalog yn amrywio o 24.5 Mbit/e ym Mhowys i 61.0 Mbit/e yng Nghaerdydd. O safbwynt rhanbarthol, roedd gwahaniaethau mawr mewn cyflymderau lawrlwytho cyfartalog rhwng yr awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Roedd gan yr awdurdodau lleol â dinasoedd mwy poblog, megis Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, gyflymderau lawrlwytho cyfartalog uwch na'r awdurdodau â dwysedd poblogaeth is. Yn y cyfamser, Gogledd Cymru oedd â'r ystod leiaf o gyflymderau lawrlwytho cyfartalog o blith yr awdurdodau lleol, ac roedd gan bob un o'i chwe awdurdod lleol gyflymderau lawrlwytho cyfartalog o rhwng 28.8 Mbit/e a 30.5 Mbit/e.

⁶⁵ [Y Swyddfa Gyfathrebu: Creu dyfodol ffibr-llawn](#)


Ffigur 32: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghymru nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018



Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ledled Cymru, nid oedd 48,000 o gartrefi a busnesau (3 y cant) , yn bodloni gofynion sylfaenol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, ym mis Medi 2018, sy'n golygu nad oeddent yn gallu manteisio ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e na chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Roedd hyn 1 pwynt canran yn uwch na lefel y DU. Mae llai o fynediad i wasanaeth band eang da mewn ardaloedd gwledig: ni all 13 y cant o safleoedd gwledig yng Nghymru gael cysylltiad o'r fath, o gymharu ag 1 y cant o safleoedd trefol.

Ffigur 33: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghymru a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Mae gwasanaethau dyfeisiau symudol yn gwella yng Nghymru, ond mae'r ddarpariaeth gan bob un o'r pedwar gweithredwr rhwydwaith yn dal i fod yn is na ffigur y DU.

Dengys data Ofcom bod 69 y cant o safleoedd dan do (cartrefi a busnesau) yng Nghymru yn cael signal 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi, o gymharu â 45 y cant ym mis Mehefin 2017. Lefel y DU oedd 77 y cant. Nid oedd 10 y cant o ardal ddaearyddol Cymru yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr. Roedd hyn yn cyfateb i gyfradd y DU.

Ffigur 34: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghymru a allai gael gwasanaeth galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2018



Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Dengys data ar wasanaethau galwadau ffôn fod 88 y cant o safleoedd dan do yng Nghymru yn cael signal gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2018. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 8 pwynt canran o gymharu â mis Mehefin 2017, ond roedd yn dal i fod 4 pwynt canran yn is na chyfradd y DU. Nid oedd 5 y cant o ardal ddaearyddol Cymru yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr ym mis Medi 2018. Roedd y ganran hon 9 y cant yn is o gymharu â mis Mehefin 2018 ac yn cyfateb i ganran y DU.


Tai

Mae cyfanswm yr anheddau a nifer amcangyfrifedig yr anheddau yn y sector preifat yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae [cyfanswm yr anheddau yng Nghymru](#)⁶⁶ wedi cynyddu 6 y cant i tua 1.4 miliwn o anheddau ar 31 Mawrth 2017.

Mae rhentu'n breifat yn dod yn fwy cyffredin yng Nghymru, gyda 14 y cant o'r holl anheddau yng Nghymru yn cael eu rhentu'n breifat yn 2017. Mae hyn yn helpu i esbonio'r cynnydd yn nifer yr anheddau yn y sector preifat, a oedd yn cyfrif am 84 y cant o'r holl anheddau yn 2017. Mae canran yr anheddau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r mwyaf o'r holl anheddau yng Nghymru yn dal i fod yn rhai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, ac roeddent yn cyfrif am 70 y cant o'r anheddau yn 2017.


⁶⁶ [StatsWales: Amcangyfrifon o'r stoc anheddau yn ôl awdurdod lleol a deiliadaeth](#)

Ffigur 35: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yng Nghymru dros amser



Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

Ffigur 36: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru dros amser, yn ôl deiliadaeth




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru⁶⁷

Ledled Cymru, cwblhawyd 6,663 o [anheddau newydd](#)⁶⁸ rhwng 2017 a 2018. Mae'r ffigur hwn 23 y cant yn llai na 10 mlynedd ynghynt ac 21 y cant yn llai nag 20 mlynedd ynghynt. Ar gyfer y cyfnod 2017-18, cwblhawyd 56 y cant o anheddau newydd yn Ne-ddwyrain Cymru. Yng Nghasnewydd y cwblhawyd y nifer fwyaf o anheddau newydd ynn Nghymru (sef 856, neu 13 y cant) ac ym Mlaenau Gwent y cwblhawyd y nifer leiaf o anheddau (sef 50, neu 1 y cant).

⁶⁷ Daw'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu. Weithiau, mae'n anodd i swyddogion rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu ddatblygwr preifat, a all arwain at dangyfrif nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gorgyfrif nifer y tai ar gyfer y sector preifat.

⁶⁸ [StatsCymru: Anheddau newydd a gwblhawyd yn ôl ardal, y math o annedd a nifer yr ystafelloedd gwely](#)

Ffigur 37: Prisiau cyfartalog anheddau yng Nghymru dros amser yn ôl y math o annedd



Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai'r DU, Cofrestrfa Tir EM

Dengys data o [Fynegai Prisiau Tai'r DU](#)^{69 70} ar gyfer mis Rhagfyr 2018, ym mis Medi 2018, mai pris tŷ yng Nghymru oedd £161,100, ar gyfartaledd, sef cynnydd o bron £28,500, neu 21.5 y cant dros gyfnod o 10 mlynedd. Ar lefel awdurdod lleol, yn Ne-ddwyrain Cymru, yn Sir Fynwy, y cofnodwyd y prisiau tai cyfartalog uchaf (sef £268,000) ac ym Mlaenau Gwent y cofnodwyd y prisiau isaf (sef £89,000).


Dengys [amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2014](#)⁷¹, erbyn 2028, y gallai fod tua 484,800 o aelwydydd un person yng Nghymru, sef cynnydd o 11 y cant o gymharu â'r lefel ragamcanol ar gyfer 2018. Erbyn 2039, rhagamcenir y bydd mwy na 528,100 o aelwydydd un person, gyda 49 y cant o'r rhain yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae maint cyfartalog rhagamcanol aelwyd ym 2028, yn amrywio o 2.11 ym Mhowys yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru i 2.36 ym Merthyr Tudful yn Ne-ddwyrain Cymru. Maint cyfartalog rhagamcanol aelwyd ar gyfer Cymru yn 2028 yw 2.21 o bobl, a fydd yn gostwng i 2.17 erbyn 2039. Dylid nodi bod y data hyn yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol ac ni ddylid eu trin fel rhagolygon.

⁶⁹ [Cofrestrfa Tir EM: Mynegai Prisiau Tai'r DU \(Saesneg yn unig\)](#)

⁷⁰ Data o Fynegai Prisiau Tai'r DU (UK HPI) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018. Mae Mynegai Prisiau Tai'r DU yn fynegai wedi'i addasu yn ôl y cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli er mwyn adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir Mynegai Prisiau Tai'r DU bob mis. Mae'r holl ffigurau ym Mynegai Prisiau Tai'r DU yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.

⁷¹ [StatsCymru: Amcanestyniadau aelwydydd ar gyfer awdurdod lleol, math o aelwyd a blwyddyn](#)

Ffigur 38: Cyfartaledd amcangyfrifon blynyddol o'r angen am dai ychwanegol (Cymru)



Ffynhonnell: Amcangyfrifon o'r angen am dai ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol (ar sail data 2018)

Dengys [amcangyfrifon o'r angen am dai](#)⁷², ar gyfer y pum mlynedd gyntaf (2018/19-2022/23), fod angen rhwng 7,200 a 9,700 o unedau tai ychwanegol yng Nghymru yn flynyddol (gydag amcangyfrif canolog o 8,300). Dan yr amcangyfrifon canolog, amcangyfrifir bod angen 56 y cant o'r unedau tai ychwanegol yn y De-ddwyrain. Yn ystod y trydydd cyfnod (2028/29-2032/33), mae ystod yr amcangyfrifon yn syrthio i rhwng 2,900 a 7,200 (gydag amcangyfrif canolog o 5,200) ac o ganol yr 2030au i'w diwedd (2033/34-2037/38), yr amcangyfrif canolog yw 3,100 o unedau tai ychwanegol. Mae hyn yn adlewyrchu arafu yn yr amcanestyniadau twf aelwydydd o amcanestyniadau seiliedig ar ffigurau 2014. Noder y bydd amcangyfrifon o'r angen am dai yn ôl deiliadaeth (tai'r farchnad a thai fforddiadwy) ar lefel ranbarthol yn cael eu cyhoeddi'n fuan ar [ein gwefan](#)⁷³.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol fod 345 o bobl [yn cysgu ar y stryd](#)⁷⁴ ledled Cymru yn y pythefnos rhwng 16 a 29 Hydref 2017. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 10 y cant (saith unigolyn) o gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016. Roedd bron hanner (49 y cant) y rhain wedi'u lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru ac roedd mwy na chwarter (27 y cant) wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.


⁷² [Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai \(sail-2018\)](#)

⁷³ [Llywodraeth Cymru: Angen a'r galw am dai](#)

⁷⁴ [StatsCymru: Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd yn ôl ardal awdurdod lleol](#)

Diwylliant a Threftadaeth

Ffigur 39: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yng Nghymru



Ffynhonnell: Cadw

Mae Cymru yn gartref i dri o safleoedd treftadaeth y byd UNESCO: mae Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd (Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech), yn ogystal â dyfrbont a chamlas Pontcysyllte wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, tra bod tirwedd ddiwydiannol Blaenafon wedi'i lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru.

Yn y chwe mis rhwng [mis Ionawr a mis Mehefin 2018](#)⁷⁵, cafwyd 4.6 miliwn o ymweliadau dros nos â Chymru gan drigolion y DU, sef cynnydd o 7.6 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod y gwariant yng Nghymru oedd £817 miliwn. Dengys [data 2017](#)⁷⁶ fod 9.0 miliwn o ymweliadau dros nos â Chymru, sy'n gwneud cyfanswm o 31.0 miliwn o nosweithiau. Roedd hyn yn cyfateb i ychydig dros 10 y cant o gyfanswm y nosweithiau a dreuliodd ym Mhrydain Fawr. Y gwariant ar yr ymweliadau hyn oedd £1.6 biliwn, sef 6.9 y cant o gyfanswm Prydain Fawr. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer Cymru wedi bod yn gostwng ers 2015.

⁷⁵ [Llywodraeth Cymru: Perfformiad twristiaeth Cymru \(Ionawr i Medi 2018\)](#)

⁷⁶ [Llywodraeth Cymru: Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr \(2017\)](#)

Yn ystod chwe mis cyntaf 2018 cafwyd 430,000 o ymweliadau â Chymru gan bobl o wledydd tramor gyda gwariant o £167 miliwn. Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad yn nifer yr ymweliadau â Chymru gan bobl o wledydd tramor o gymharu â'r un cyfnod yn 2017, ond gwelwyd gostyngiad tebyg ledled y DU yn gyffredinol, a chynyddodd cyfanswm y gwariant yng Nghymru.

Yn 2017, cafwyd 1.8 biliwn o [Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid](#)⁷⁷ ym Mhrydain Fawr, gyda 100 miliwn ohonynt (6 y cant) yng Nghymru. Yng Nghymru, cofnodwyd llai o ymweliadau dydd gan dwristiaid yn 2017 nag yn 2011, er bod y nifer wedi amrywio dros y cyfnod hwn. Cyfanswm y gwariant o ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru yn 2017 oedd mwy na £4.3 biliwn, sef 7 y cant o gyfanswm Prydain Fawr. Bu cynnydd yn nifer yr ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru yn ystod chwe mis cyntaf 2018 gyda 46.7 miliwn o ymweliadau â Chymru a gwariant o £1.9 biliwn.

Yn 2017, roedd ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rhai a wnaed yn Lloegr o gynnwys gweithgareddau hamdden awyr agored neu o gael eu disgrifio fel diwrnodau cyffredinol allan i ymweld ag ardal. Roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o gynnwys ymweliad â glan y môr neu'r arfordir nag yng ngwledydd eraill y DU ac yn llawer llai tebygol o gynnwys ymweliad â dinas neu dref fawr.

Yn 2017, roedd 26 y cant o'r Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid â Chymru gan bobl o'r tu allan i Gymru.

Dengys [Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru 2017](#)⁷⁸, ar gyfartaledd, mai'r cyfraddau ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd mewn gwestai⁷⁹ ar gyfer 2017 oedd 51 y cant a 67 y cant yn y drefn honno, sef cynnydd bach o 1 pwynt canran mewn cyfraddau defnydd gwelyau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda chyfraddau defnydd ystafelloedd yn cyfateb yn union i gyfraddau'r ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae cyfraddau defnydd cyfartalog blynyddol yn y sector gwestai yn parhau i fod ar eu lefelau uchaf o ran y ddau fesur o ddefnydd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Roedd natur dymhorol cyfraddau defnydd ar gyfer gwestai yng Nghymru yn dal i fod yn amlwg yn 2017. Cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd o 48 y cant ym mis Ionawr i'w lefel uchaf erioed ym mis Awst, sef 79 y cant, cyn gostwng i 53 y cant ym mis Rhagfyr.

⁷⁷ [Arolwg Ymweliadau Undydd Prydain Fawr \(2017\)](#)

⁷⁸ [Llywodraeth Cymru: Arolygon deiliadaeth llety twristiaeth Cymru \(2017\)](#)

⁷⁹ Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael. Cyfradd defnydd gwelyau yw nifer y gwelyau a ddefnyddiwyd dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm y gwelyau a oedd ar gael.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Felly, mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. Cymru, lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi cymorth o fewn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#)⁸⁰. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff y cyhoeddiad hwn ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a'r cyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar [StatsCymru](#)⁸¹.

Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar [wefan Awdurdod Ystadegau'r DU](#)⁸². Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019, er bod diwygiadau wedi'u gwneud i ffynonellau data, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a pherfformiad twristiaeth Cymru. Mae datganiadau mis Ionawr i fis Mehefin 2018 wedi'u hystyried. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau.

Ni fwriadwn ddiweddarau'r adroddiad hwn yn rheolaidd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddarau wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

⁸⁰ [Llywodraeth Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru](#)

⁸¹ [Gwefan StatsCymru](#)

⁸² [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig: mathau o ystadegau swyddogol \(Saesneg yn unig\)](#)

Amseroldeb a phrydlondeb

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i gyd-fynd â'r broses o ddrafftio a chyhoeddi'r [Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#). Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Y data hyn oedd y diweddaraf ar gael ar 11/01/2019.

Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r [Gymraeg](#)), rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni. Os na ellir cymharu data dros amser (er enghraifft yn y siart ar ystadegau sy'n ymwneud â [Theithio Llesol](#)), rhoddir esboniad ynglŷn â pham na ellir gwneud hynny.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LICD)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: <https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-ar-gyfer-rhanbarthau-economegol-2019>

Dolenni cysylltiedig eraill

[Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#)

Diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddarau. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddarau wrth i ddata newydd ddod ar gael.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at desg.ystadegau@llyw.cymru.

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir fel arall.

